*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **17 Medi 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Sandra Forrest (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon 2017/18** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno datganiad archwiliedig o gyfrifon 2017/19 i'r aelodau, gan gynnwys y datganiad llywodraethu, ac mae'r ddau ddatganiad wedi bod yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y nodir yn ei adroddiad.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyfrifon drafft a'r datganiad llywodraethu eu cyflwyno i'w harchwilio ar 1 Mehefin 2018. Roedd y rhain yn cadarnhau sefyllfa alldro drafft y gwariant net, sef £33.329m, gan arwain at gyfraniad o £93,083 o'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig terfynol wedi newid.

3 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r aelodau:

(i) nodi'r datganiad o gyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2017-18; maen nhw yn atodiad 1;
(ii) nodi'r adroddiad a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 2;
(iii) nodi ymatebion y rheolwyr i faterion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 10 Medi 2018 er mwyn adolygu cynnwys yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y byddai'r camau gweithredu yn cael eu gweithredu'n llwyr a bod y cynnydd ar y camau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.

## CEFNDIR

6 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010, mae'r Awdurdod wedi paratoi datganiad o gyfrifon a datganiad llywodraethu, a'r ddau wedi bod yn destun archwiliad allanol.

## GWYBODAETH

### Perfformiad ariannol

7 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18 Mehefin 2018, cafodd yr aelodau adroddiad ar berfformiad ariannol 2017-18. Roedd hwn yn cadarnhau sefyllfa alldro drafft y gwariant net, sef £33.329m, gan arwain at gyfraniad o £93,083 o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig terfynol wedi newid.

### Cronfeydd wrth gefn

8 Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys cronfa gyffredinol o £2,057,000 wrth gefn, a chronfeydd o £639,000 wedi'u clustnodi. Cedwir cronfeydd wedi'u clustnodi i liniaru rhag y costau sy'n gysylltiedig â lleihad posibl yn yr arian grant, yn y costau sy'n gysylltiedig â system radio newydd ar gyfer safleoedd tân, a chronfa wrth gefn i ddelio ag amrywiadau mewn cyfraddau llog ar fenthyca.

### Canfyddiadau'r Archwiliad

9 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu rhoi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu bod y cyfrifon yn rhoi golwg gwir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod. Nodwyd y materion canlynol:

- Roedd yr archwiliad wedi canfod nifer o newidiadau y cytunodd y rheolwyr arnynt. Nid oedd y newidiadau'n effeithio ar y sefyllfa yr adroddodd yr Awdurdod yn ei chylch, ac roeddent yn cynnwys nifer o addasiadau angenrheidiol i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

- Roedd yr archwiliad wedi canfod dwy eitem arall heb eu cywiro. Roedd y rhain yn cynnwys cod anghywir i incwm o £27,000, a chronni gwariant cyfalaf am waith yn rhychwantu diwedd y flwyddyn. Rhoddir cyfrif llawn a chywir am yr eitemau hyn yn 2018/19. Darparwyd sicrwydd gan y rheolwyr bod y rhain wedi cael eu hystyried yn llwyr ac nid ydynt yn berthnasol i'r farn.

- Roedd yr archwiliad hefyd wedi ystyried y modd y mae'r Awdurdod yn gweithredu Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2014. Roedd y Gorchymyn yn cynnwys newid i'r rheoliadau pensiwn i gyflwyno pwerau newydd i'r Awdurdod allu gwneud rhai lwfansau a thaliadau dros dro yn rhai pensiynadwy dan drefniant Budd Pensiwn Ychwanegol. Yn ystod Tachwedd 2017, daeth yn amlwg nad oedd Awdurdodau Tân ac Achub Cymru wedi gweithredu'r Gorchymyn ac roedd lwfansau dros dro wedi cael eu trin yn unol â'r rheoliadau blaenorol.

- Ar 19 Mawrth 2018, fe wnaeth yr Awdurdod Tân ac Achub gymeradwyo adroddiad yn gweithredu gofynion y Gorchymyn, gan gytuno â'r cyrff cynrychioliadol ar y dyddiad pryd y byddent yn dod i rym. Cytunwyd wedi hynny mai 1 Gorffennaf 2018 fyddai'r dyddiad hwnnw.

- O ganlyniad i'r oedi wrth weithredu'r Gorchymyn, mae nifer fach o bobl wedi ymddeol ac wedi cael setliadau pensiwn sydd heb fod yn cyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol. Er bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi'i fodloni nad yw'r symiau'n sylweddol, a'i fod yn bwriadu rhoi barn ddiamod, tynnwyd sylw at y mater hwn yn ei adroddiad. Mae gwaith yn mynd ymlaen yn yr Awdurdod i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd ar ôl o ran cyfreithlondeb ac ariannu'r taliadau hyn ac i gytuno ar unrhyw gamau angenrheidiol i gywiro'r mater.

- Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud chwe argymhelliad o fewn ei adroddiad, a darparwyd atebion gan y rheolwyr i gefnogi gwelliant yn y blynyddoedd i ddod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r datganiad archwiliedig o gyfrifon yn cynnwys yr incwm a gwariant gwirioneddol o gymharu â'r gyllideb, ac mae'n cadarnhau'r farn archwilio ynglŷn ag a ydyw'n darparu gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod ai peidio. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer llunio'r cyfrifon ar gael yn Nhudalen 1 o'r Datganiad o Gyfrifon. Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyfeirio at wariant afreolaidd, a chymerir camau pellach i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Os nad yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â'r cod ymarfer, mae'n bosibl na fydd y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg. |